Mêl grug, mêl y mynydd

Peter McFadden, Cymdeithas Gwenynwyr Conwy
www.conwybeekeepers.org.uk

Mae trwch o rug dros fynyddoedd gogledd Cymru a hwnnw'n ffynhonnell mêl werthfawr iawn, ond prin y mae gwenynwyr yn manteisio arni.
Mae blas arbennig a chryf i fêl grug (ling heather) *calluna vulgaris*, ac mae galw mawr amdano gan gwsmeriaid.
Y gwenynwyr sy'n gwerthu mêl grug neu fêl grug wedi'i gymysgu yn Ffair Fêl Conwy sydd â'r ciwiau hiraf fel arfer!

Rwy'n gobeithio y gall y nodiadau hyn, sy'n seiliedig ar 30 mlynedd o symud gwenyn at y grug, annog eraill i symud eu gwenyn at y grug.

Pam dylwn i symud gwenyn at y grug?

1. Mae'r grug yn ei flodau ar y mynyddoedd ym mis Awst, pan fydd y rhan fwyaf o flodau'r dyffryn, ac eithrio Jac y neidiwr/ffromlys chwarennog *(Himalayan balsam)*, wedi dod i ben.
2. Mae'r grug yn rhoi cyfle ichi gael cnwd gwerthfawr o fêl ar ddiwedd y tymor.
3. Mae'n hwyl! Mae gwaith canol y tymor, yn rheoli heidiau, gwneud cnewyll *(nucs)*, a magu breninesau wedi dod i ben, ac mae symud at y grug yn ddiweddglo pleserus i'r tymor mêl.
4. Cwyr gwenyn o'r grug sydd â'r arogl gorau o bob cwyr.
5. Fel arfer mae'r gwenyn sydd wedi bod ar y grug yn gaeafu'n dda.

Beth yw'r cnwd mêl posib?
Mae cwch cryf yn gallu cynhyrchu dau lond llofft fêl *(super)* o fêl grug a bwyd iddo dros y gaeaf, os cawn ni rywfaint o dywydd gwlyb ym misoedd Mai a Mehefin i gael y grug i dyfu, a thywydd braf ym mis Awst. Nid oes unrhyw flodyn arall, ac eithrio efallai had rêp neu dafod yr ych *(borage)* yn gallu cynhyrchu cnwd o fêl mor gyflym.
Ambell flwyddyn chewch chi ddim diferyn o fêl, ond fel arfer mae'n werth yr ymdrech o symud y gwenyn.

Pa mor bell fydd y gwenyn yn hedfan at y grug?
Bydd fy ngwenyn i'n hedfan dwy filltir o'm gwenynfa gartref yn Nyffryn Conwy at y grug ar Fynydd Tal-y-Fan mewn haf da. Gallwch chi arogli'r mêl grug yn y cwch. Weithiau byddan nhw'n llenwi llofft fêl â mêl grug heb gael eu symud oddi cartref. Ond, byddan nhw bob amser yn gwneud yn llawer gwell os ydyn nhw'n cael eu symud reit i mewn i'r grug.

Sut rydych chi'n dod o hyd i safle i gwch wrth y grug?
Does dim byd yn well na phâr cryf o esgidiau cerdded a map da, a gwaith cerdded o ddifrif. Dydyn ni ddim yn argymell gosod sawl cwch gyda'i gilydd wrth y grug, oherwydd y gallai clefydau gwenyn ymledu.

Gaf i osod cwch ar dir y Comisiwn Coedwigaeth (Adnoddau Naturiol Cymru erbyn hyn)?
Cewch. Mae heolydd y Comisiwn yn rhoi mynediad i rai safleoedd diddorol ac anhygyrch, gydag amrywiaeth eang o flodau i'r gwenyn. Mae'r Comisiwn yn gofyn am asesiad risg, datganiad dull, ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am £5 miliwn (sydd wedi'i gynnwys yn eich aelodaeth o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru) a map sy'n dangos lleoliad y cwch/cychod. Y tâl blynyddol yw £50 y person i wenynwr sy'n cadw gwenyn fel hobi, ac mae'r ffi i'w drafod â gwenynwyr masnachol. Cysylltwch â'ch swyddfa leol. Gweler www.forestry.gov.uk/wales

Beth sy'n gwneud safle da wrth y grug i'r cwch?

1. Safle cysgodol ond heulog, efallai y tu ôl i wal gerrig.
2. Digon o rug ifanc o gwmpas i gyd.
3. Mynediad da mewn cerbyd yn union at y cychod.
4. Osgowch safle a fydd yn fwdlyd pan fyddwch chi'n dod i symud y cychod adref.
5. Gosodwch eich cychod yn ddigon pell o lwybrau cyhoeddus.
6. Dim uwch na 800 troedfedd. Gadewch i'r gwenyn hedfan i fyny'n wag at y grug, a hedfan yn ôl i lawr y rhiw i'r cwch gyda llwyth llawn o neithdar.

Oes angen caniatâd?

Oes, yn wir. Edrychwch i weld pwy sy'n ffermio'r tir/yn berchen arno a gofynnwch am eu caniatâd cyn symud y cychod. Cytunwch ar rent ymlaen llaw; dyweder un jar o fêl y cwch y flwyddyn.

Sut rydych chi'n paratoi'r safle?

Cliriwch unrhyw redyn a cherrig mawr. Defnyddiwch hen deiars ceir fel standiau i'r cychod.

Sut rydych chi'n paratoi nythfa at y grug?

1. Dewiswch nythfa gref gyda brenhines newydd a digon o fag ifanc.
2. Tynnwch unrhyw lofftydd mêl yr haf a'r wahanlen *(queen excluder)*.
3. Gwnewch yn siŵr fod y gwenyn yn iach.
4. Rhaid i waith pren y cwch fod mewn cyflwr da. Fydd hi ddim yn hir cyn i'r gwenyn ddod o hyd i fylchau pan fyddwch chi'n eu symud nhw.
5. Gosodwch y cwch gyda llawr rhwyllau, bocs mag a hanner, caead a tho.
6. Does dim angen sgrin deithio os byddwch chi'n defnyddio llawr rhwyllau.
7. Caewch y cwch â blocyn mynediad sbwng a gosodwch ddwy strapen ar y cwch.

Pryd rydych chi'n symud y gwenyn at y grug?

Diwedd mis Gorffennaf / dechrau mis Awst.

Pa adeg o'r dydd?

Mae'r gwenyn yn gwsg yn gynnar yn y bore a fyddwch chi ddim yn ymladd â'r golau dydd. Os ydych yn eu symud gyda'r nos, mae'n rhaid aros tan i'r gwenyn dawelu am y nos, cyn cau'r cwch, ond gallwch chi fynd am dro i'r dafarn leol wedyn.

Faint o bobl sydd eu hangen i symud cychod?

1. Hen waith diflas yw symud cychod ar eich pen eich hun.
2. Fel arfer, mae gweithio gyda gwenynwr arall yn hwyl. Gall un osod y blociau mynediad sbwng, tra bydd y llall yn gosod y strapiau ac yn casglu toeon y cychod.
3. Mae codwr cychod dau berson yn hwyluso'r symud yn fawr. Mae gan Gymdeithas Gwenynwyr Conwy godwyr cychod a wnaed yn lleol ar werth.
4. Mae llwytho a dadlwytho cerbyd yn hawdd gyda dau berson, ond yn lladdfa ar eich pen eich hun.

Beth all fynd o'i le wrth symud gwenyn?

Digon o bethau!

1. Car yn mynd yn sownd ar dir gwlyb.
2. Gwenyn yn dianc o gwch sy'n gollwng.
3. Car yn torri i lawr, fel digwyddodd i mi wrth fynd â chychod at y grug yn 2009. Roedd rhaid imi gael fy nhynnu'r deng milltir adref.
4. *Pickup* gyriant pedair olwyn yw'r dull teithio gorau.

Pryd mae'r grug (calluna vulgaris) yn cynhyrchu mêl?
O ddechrau i ddiwedd mis Awst. Efallai gall y gwenyn fanteisio ar rug arall *(Erica)*, helyglys hardd, a'r fwyaren ddu, sy'n blodeuo tan ddechrau mis Awst. Fel arfer mae hi'n rhy oer ar y mynydd ym mis Medi i ganiatáu i fêl gael ei gynhyrchu.

Lleoli'r cwch
Gosodwch y cwch yn wynebu'r de ar deiar car, gyda charreg fawr drom ar y to. Does dim angen ffensio. Tynnwch y strapiau a chofio tynnu'r blociau mynediad sbwng.

Pryd rydych chi'n gosod y llofftydd mêl?
Ychydig ddiwrnodau ar ôl i'r cychod gael eu symud. Rwy'n gosod dwy lofft ar bob cwch, gyda chymysgedd o len o gwyr heb ei weiro a chrwybr wedi'i dynnu. Does dim angen gwahanlen pan fydd y cwch wrth y grug. Dim ond llenni cwyr tenau heb eu weiro rwy'n eu defnyddio yn y llofftydd mêl.

Pam llenni cwyr heb eu weiro?
Bydd y crwybr yn cael ei dorri allan o'r ffrâm i'w wasgu, ac rwy' eisiau osgoi unrhyw berygl y bydd darnau o weiren yn cyrraedd y bwcedi mêl.

Rwy' wedi clywed bod y gwenyn yn gallu bod yn fyr eu tymer pan fyddant wrth y grug?
Ydy, mae'n wir, ac efallai fod hynny oherwydd bod y llif cyflym o neithdar yn gallu dod i ben yn hawdd os yw'r tywydd yn troi. Gwnewch yr hyn sydd ei angen yn unig pan fydd y cwch wrth y grug, a gweithiwch y gwenyn pan fydd y tywydd yn braf yn unig.

Pryd rydych chi'n tynnu'r llofftydd mêl?
Yn gynnar ym mis Medi, yn barod at Ffair Fêl Conwy ar 13 Medi.

Ydy hi'n bosib gadael y cychod yn safle'r grug drwy'r flwyddyn?
Rhoddais gynnig ar hyn unwaith, ond roedd hi'n anodd iddyn nhw drwy'r gaeaf, ac ychydig iawn o baill y gwanwyn oedd gerllaw.
Mae'n llawer gwell dod â nhw'n ôl i lawr.

Pryd rydych chi'n symud y gwenyn adref?
Canol mis Medi.

Sut rydych chi'n tynnu'r mêl o'r crwybr?

1. Mae mêl grug yn thicsotropig ac ni ellir ei droelli allan o'r crwybrau mewn corddwr. Y ffordd fwyaf llwyddiannus yw gwasgu'r mêl allan.
2. Mountain Grey wnaeth y gwasgwr mêl grug gorau. Weithiau mae gwasgwyr MG yn dod ar werth ar eBay, ac mae'n werth cadw llygad amdanyn nhw. Prynais un drwy roi hysbyseb Yn Eisiau yn BeeCraft. Mae'n dal yn werth rhoi cynnig ar hyn.
3. Torrwch y crwybrau llawn allan. Gosodwch nhw mewn bag hidlo hesian, malwch y crwybrau a gwasgu'r mêl allan.
4. Mae cwmni Thorne yn gwerthu gwasgwr mêl grug rhad.
5. Mae'r *Perforextractor* yn ddewis arall. Mae'r mêl yn y crwybr yn cael ei symud a'i ryddhau â gwely o nodwyddau miniog wrth ddolen, ac wedyn mae modd troelli'r crwybr mewn corddwr tangiadol. Mae canran y mêl sy'n cael ei dynnu'n eithaf isel.
6. Mae modd torri mêl grug yn flociau a'i werthu fel crwybr wedi'i dorri mewn blychau plastig sy'n dal tua 200g o fêl. Mae'n boblogaidd iawn yn Ffair Fêl Conwy.

Paratoi mêl grug i'w werthu

Mae'r mêl sy'n gwerthu orau gen i yn cael ei wneud o gymysgedd o fêl had olew rêp a mêl grug *calluna vulgaris*. Mae ymwelwyr â Ffair Fêl Conwy wrth eu bodd â'r mêl hwn, ac mae'n gwerthu'n gyflym iawn.

Rwy'n storio'r mêl rêp mewn bwcedi 30 pwys mewn ysgubor dywyll, oer o fis Mehefin tan y bydd y mêl grug yn barod ddechrau mis Medi.

Fyddaf i byth yn potelu mêl grug pur. Mae'r blas yn rhy gryf i'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid, ac mae tuedd i'r mêl eplesu wrth ei storio. Dylai mêl grug wedi'i gymysgu gadw am naw mis heb eplesu.

Bydd arnoch angen:
Blwch cynhesu, gyda dau fwlb golau i feddalu'r mêl rêp.
Tanc gwaddodi (*settling tank)* / potelu 100 pwys.
Dau gynorthwyydd tywallt gan gwmni Thorne
Un hufennwr mêl gan gwmni Thorne.

Cynheswch ddau fwced o fêl rêp yn y blwch cynhesu, tan ei fod ei ansawdd fel uwd. Os nad oes unrhyw fêl rêp gyda chi, gallwch ddefnyddio unrhyw fwcedi o fêl gronynnog.

Yn gynnar y bore . . .
Gwnewch yn siŵr fod tap y tanc gwaddodi wedi'i gau'n dynn.
Gwacewch y ddau fwced o fêl rêp i mewn i'r tanc gwaddodi.
Gwacewch un bwced 30 pwys o fêl grug newydd ei wasgu i mewn i'r tanc gwaddodi.
Cymysgwch yn drylwyr iawn am rai munudau â hufennwr mêl.
Gorchuddiwch y tanc a'i adael tan fin nos.

Yr un diwrnod, yn gynnar y min nos
Potelwch y mêl i gyd.
Os gadewch chi'r potelu dros nos, bydd y cymysgedd yn dechrau setio. Yn sicr bydd yn arafach i'w botelu.

Dylid storio'r mêl mewn ystafell oer, dywyll neu ysgubor. Dwi'n defnyddio blychau madarch glas, sy'n dal 15 jar x 1 pwys. Rwy'n labelu'r jariau wrth eu gwerthu. Weithiau mae siwgr mân yn ymddangos *(frosting)* ond gallwch guddio hyn o dan y label!

Manteision cymysgu mêl grug.

1. Mae iddo flas grug da.
2. Mae'n ychwanegu gwerth at fêl rêp had olew.
3. Mae'n cadw'n dda heb eplesu.
4. Mae'n hawdd iawn ei werthu.

Sut rydych chi'n labelu eich mêl cymysgedd grug?
Naill ai fel Mêl Cymysgedd Grug neu fel Mêl Conwy'n unig.

Paratoi nythfeydd grug at y gaeaf

1. Rwy'n edrych i weld bod brenhines sy'n dodwy a mag cyn dod â'r cychod adref.
2. Rwy'n gosod estyniad *(eke)* a'r hambwrdd Apiguard cyntaf pan fydd y cychod wrth y grug. Gwnewch yn siŵr fod yr hambwrdd i ddal gwiddon yn ei le.
3. Ar ôl pythefnos, gyda'r cychod oedd wrth y grug gartref, rwy'n gwirio'r pwysau ac os oes angen rwy'n bwydo gan ddefnyddio bwydwr hambwrdd sydyn.
4. Wedyn rwy'n ffitio'r ail hambwrdd Apiguard.

5. Ddiwedd mis Medi pan fydd y driniaeth ar ben, rwy'n tynnu'r estyniad, ac yn gosod llofft fêl wedi'i llenwi'n rhannol, i storio unrhyw fêl iorwg neu fêl Jac y neidiwr/ffromlys chwarennog hwyr.
6. Weithiau bydd y gwenyn yn llenwi'r estyniad â mag hwyr a chrwybr gwyllt. Fel arfer rwy'n gadael hwnnw yn ei le tan y gwanwyn.

Diolch am y wybodaeth. Byddaf yn symud fy ngwenyn at y grug eleni.

Rhagor o waith darllen:
Bees to the heather, Stanley Whitehead.

Art of Beekeeping, William Hamilton.

Sixty years with bees, Donald Sims.

Rhowch gynnig ar www.abebooks.co.uk am gyflenwadau o lyfrau ail-law am gadw gwenyn am brisiau rhesymol.

Gwenyn wrth y grug a Llyn Crafnant.